

Natural Resources Wales brings together the work of the Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales and Forestry Commission Wales. Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably enhanced, maintained and used, now and in the future.

Welcome to our twelfth newsletter!

Many homes and businesses in the Roath, Penylan and Newport Road areas are at risk of flooding from the Roath Brook and the River Rhymney. Natural Resources Wales is working with partners and the community to deliver a flood scheme. This newsletter aims to keep you informed of the scheme's progress and upcoming consultation.



Proposed location of the platform for the art installation in Roath Mill Gardens

Appointment of Contractor

We have now appointed the main contractor to carry out the flood scheme works on our behalf. Dawnus are one of our framework suppliers and are experienced civil engineering contractors. We are looking forward to working with them to deliver the scheme to reduce the flood risk to the local community. They have a dedicated Community Officer who will provide a point of contact for local residents throughout the construction works – contact details will be announced soon.

What's Next?

We are working with Dawnus to finalise the construction programme. Works are planned to start on site in mid-January in Waterloo and Railway Gardens. The first activities will be site set-up and tree and vegetation removal. We're speaking to Cardiff Council to agree suitable dates to close Waterloo Road to permit the construction of the new bridge and other traffic management issues. We will keep people informed of any planned road and garden closures or diversions as early as possible via our webpage and social media (see below).

We have also appointed a building surveyor, Cooke & Arkwright, to visually inspect the condition of a number of properties close to the scheme over the coming months. They will contact the relevant people directly to arrange appointments.

Public Artist

As part of NRW's commitment to meeting the goals of the 'Well-being of Future Generations (Wales) Act', we will be integrating public art into the Roath scheme within Roath Mill Gardens. We have recently appointed Welsh artist, Rubin Eynon, to work with the community to develop a suitable piece of art. If you'd like to see how Rubin's proposals are progressing and to get involved, please visit this dedicated Facebook page: [facebook.com/Millgardensculpture](https://www.facebook.com/Millgardensculpture).

Next Public Drop-in

We are holding a public drop-in session to allow the community to meet our construction team and artist on 11th January from 3pm to 7pm at St Peter's Rugby Club on Minster Road. This session will provide an opportunity to see the current scheme and construction programme, and to discuss elements of the work with the team. Please drop by for a chat – we would really value your comments.

For further information please visit our scheme webpage: naturalresources.wales/roath
Or via – Twitter: [@natreswales](https://twitter.com/natreswales) or Facebook: [NatResWales](https://www.facebook.com/NatResWales).

Contact us or sign up for news:

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ein diben yw sicrhau gwella, cynnal a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Croeso i'n deuddegfed cylchlythyr!

Mae nifer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd yn sgil Nant y Rhath ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i gyflawni cynllun llifogydd. Nod y cylchlythyr hwn yw eich hysbysu ynghylch cynnydd y cynllun a'r ymgynghoriad sydd ar ddod.



Lleoliad arfaethedig y llwyfan ar gyfer y gwaith celf yng Ngerddi Melin y Rhath

Penodi Contractwr

Rydym bellach wedi penodi'r prif gontractwr ar gyfer ymgymryd â gwaith y cynllun llifogydd ar ein rhan. Daw'n un o'n cyflenwyr fframwaith ac maent yn gontractwyr peirianeg sifil profiadol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw i gyflawni'r cynllun er mwyn lleihau'r perygl llifogydd i'r gymuned leol. Mae gennym Swyddog Cymunedol pwrpasol a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt i drigolion yr ardal drwy gydol y gwaith adeiladu - bydd y manylion cyswllt yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Beth nesaf?

Rydym yn gweithio gyda Daw'nus i gwblhau'r rhaglen adeiladu. Y bwriad yw cychwyn gweithio ar y safle ganol mis Ionawr yng Ngerddi Waterloo a Gerddi'r Rheilffordd. Paratoi'r safle a chael gwared â choed a llystyfiant fydd y gweithgareddau cyntaf. Rydym yn siarad â Chyngor Caerdydd er mwyn cytuno ar ddyddiadau addas ar gyfer cau Heol Waterloo fel y gellir adeiladu'r bont newydd a delio â materion eraill yn ymwneud â thraffig. Byddwn yn hysbysu pobl ynghylch unrhyw achosion arfaethedig o gau neu wyro ffyrdd a gerddi cyn gynted ag y bo modd trwy gyfrwng ein gwe-dudalen a'r cyfryngau cymdeithasol (gweler isod).

Rydym hefyd wedi penodi arolygwyr adeiladu, Cooke & Arkwright, i gynnal archwiliad gweledol ar nifer o adeiladau wrth ymyl y cynllun yn ystod y misoedd nesaf. Byddant yn cysylltu â'r bobl yn uniongyrchol i drefnu apwyntiadau.

Artist Cyhoeddus

Fel rhan o ymrwymiad CNC i gyrraedd amcanion y 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)', byddwn yn cynnwys celfyddyd gyhoeddus yng Nghynllun y Rhath yng Ngerddi Melin y Rhath. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi Rubín Eynon, artist o Gymru, i weithio gyda'r gymuned i ddatblygu gwaith celf. Os hoffech weld sut y mae cynigion Rubín yn dod yn eu blaen, a chymryd rhan yn y broses, edrychwch ar y dudalen Facebook hon: [facebook.com/Millgardensculpture](https://www.facebook.com/Millgardensculpture).

Y Sesiwn 'Galw Heibio' Gyhoeddus Nesaf

Rydym yn bwriadu cynnal sesiwn galw heibio gyhoeddus ar gyfer y gymuned er mwyn eu galluogi i gyfarfod â'n tîm adeiladu a'r artist ar 11 Ionawr, rhwng 3pm a 7pm yng Nghlwb Rygbi Sant Pedr ar Heol Minster.

Fe fydd y sesiwn hon yn gyfle i weld y cynllun presennol a'r rhaglen adeiladu, yn ogystal â thrafod agweddau ar y gwaith gyda'r tîm. Mae croeso ichi bicio draw am sgwrs - byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau'n fawr.

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar we-dudalen y cynllun: [naturalresources.wales/roath](https://www.naturalresources.wales/roath) neu edrychwch ar - Twitter: [@natreswales](https://twitter.com/natreswales) neu Facebook: [NatResWales](https://www.facebook.com/NatResWales).

Er mwyn cysylltu a ni neu dderbyn newyddion

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk